

Gwybodaeth am Salwch

14 Ionawr 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 7 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn:

I bwy bynnag y mae hyn yn berthnasol,

Cyfarchion gorau. O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a allwch chi rannu'r canlynol:

- 1. Faint o aelodau o staff y Senedd sydd wedi cymryd diwrnodau salwch yn eich gwasanaethau, a'r diwrnodau hynny'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.*
- 2. Faint o aelodau o staff y Senedd sydd wedi cymryd diwrnodau salwch yn eich gwasanaethau, a'r diwrnodau hynny'n gysylltiedig ag anhwylder anadlol a phroblemau cyhyrol.*
- 3. Faint o aelodau o staff y Senedd sydd wedi cymryd diwrnodau salwch yn eich gwasanaethau, a'r diwrnodau hynny'n gysylltiedig â Covid-19.*
- 4. Faint o aelodau o staff y Senedd sydd wedi cymryd diwrnodau salwch yn eich gwasanaethau, a'r diwrnodau hynny'n gysylltiedig â symptomau heb ddiffiniad clir.*
- 5. Faint o aelodau o staff y Senedd sydd wedi cymryd diwrnodau salwch yn eich gwasanaethau, a'r diwrnodau hynny'n gysylltiedig â rhesymau eraill (wedi'u diffinio os oes modd)*

Yn ddelfrydol hoffwn i gael ffigurau'r deng mlynedd diwethaf (1 Ionawr 2010 - 31 Rhagfyr 2019), ac unrhyw ddata a gofnodwyd ar adeg ysgrifennu hyn (1 Ionawr 2020 - 1 Rhagfyr 2020), ond fe dderbyniaf pa bynnag wybodaeth a gofnodwyd sydd gennych. Yn ogystal, hoffwn i gael dadansoddiad yn ôl mis a, lle bo hynny'n bosibl, yn ôl rhyw/rhywedd, hil / ethnigrwydd, a grŵp oedran (e.e. 18-24, ac ati).

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Yn ystod yr un cyfnod, a allwch chi hefyd ddweud wrthyf gyfanswm y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch, a'r diwrnodau hynny'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, fesul gweithiwr? Unwaith eto, a allwch chi ddangos hyn yn flynyddol.

Os yw'r cais hwn yn rhy eang neu'n aneglur, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â mi, gan fy mod yn deall bod gofyn i chi o dan y Ddeddf gynghori a chynorthwyo ceiswyr. Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth hon eisoes yn gyhoeddus, a allwch fy nghyfeirio ati, gyda chyfeiriadau at dudalennau a chyfeiriadau gwe os oes angen.

Mae'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani i'w gweld yn y ddogfen PDF sydd ynghlwm (gofynnwch am y wybodaeth hon). Mae pob tabl yn amlinellu nifer yr aelodau staff sydd wedi cymryd diwrnodau salwch yn ôl y categorïau rydych chi wedi'u nodi, ac wedi'u dadansoddi yn ôl mis. Fodd bynnag, yn unol â'ch cais, mae un o'r tablau yn nodi nifer y diwrnodau fesul gweithiwr a gofnodwyd fel absenoldeb oherwydd rhesymau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, a hynny fel cyfartaledd fesul gweithiwr. Mae hyn wedi'i ddadansoddi fesul blwyddyn.

Er gwybodaeth, mae'r teitl 'Diffiniad aneglur' yn y tabl yn ymwneud â chyflyrau anhysbys a heb eu datgelu.

Mae ein hamserlen gadw yn golygu mai dim ond gwybodaeth sy'n dyddio'n ôl i 2014 yr ydym yn ei chadw, felly ni allwn ddarparu data i chi ar gyfer unrhyw flynyddoedd blaenorol.

Roedd eich cais yn gofyn am ddadansoddi'r wybodaeth yn ôl hil/ethnigrwydd, rhywedd a grwpiau oedran penodol, ond ni allwn gynnig y fath fanylder i chi gan y byddai gwneud hynny'n golygu bod modd adnabod rhai unigolion ac yn gyfystyr â data personol. Felly, mae'n ddarostyngedig i'r eithriad 'gwybodaeth bersonol' o dan adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol ac y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un neu rai o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr [atodiad](#) i'r llythyr hwn.

Am yr un rheswm, gan fod rhai o'r ffigurau yn isel iawn, nid ydym wedi gallu darparu'r rhai sydd o dan nifer benodol. Yn yr achosion hyn, rydym wedi rhoi ffigur diennw i chi.

Nid ydym ychwaith wedi gallu datgelu union nifer y diwrnodau absenoldeb a gofnodwyd oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl fesul gweithiwr unigol, gan fod hyn yn gyfystyr â data personol ac wedi'i eithrio yn unol â'r eithriad uchod. Er mwyn darparu

rhywfaint o'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani, rydym yn lle hynny wedi rhoi ffigur cyfartalog fesul gweithiwr ar gyfer blynyddoedd 2014 i 2020.

Rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir,

Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych bryder neu a ydych am wneud cwyn am yr ymateb i'ch cais rhyddid gwybodaeth?

Os nad ydych yn fodlon â'r modd y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i dyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth:

ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais am benderfyniad yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth gyda'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad

Adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: byddai datgelu data personol yn mynd yn groes i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Mae Adran 4 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn diffinio data personol fel a ganlyn:

“any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person”.

Mae'r wybodaeth y gwneir cais amdani, sy'n ymwneud â dadansoddiad o ystadegau salwch yn ôl rhywedd, hil ac oedran, yn golygu y gellid adnabod rhai o aelodau staff Comisiwn y Senedd.

Caiff gwybodaeth bersonol ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3A)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth lle byddai datgelu gwybodaeth yn mynd yn groes i un neu fwy o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Yr egwyddor diogelu data cyntaf sy'n gymwys ar yr achlysur hwn.

Mae'r egwyddor diogelu data cyntaf, fel y nodwyd yn Erthygl 5 o'r RHEOLIAD Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn datgan:

“Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')”.

Wrth ystyried a fyddai datgelu'r wybodaeth yn deg, rydym wedi ystyried y goblygiadau o'i datgelu, y disgwyliadau rhesymol gan y personau y mae'n ymwneud â hwy, a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau hwy ac unrhyw fudd dilys o ddatgelu'r wybodaeth. Down i'r casgliad y byddai datgelu'r wybodaeth yn annheg. Mae staff Comisiwn y Senedd yn disgwyl y câi eu cofnodion salwch eu cadw'n gyfrinachol ac na fyddent yn cael eu datgelu fel hyn.

O roi fy marn ar degwch y mater i un ochr, ystyriais Erthygl 6 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Nid oes yr un o'r seiliau cyfreithiol yn Erthygl 6 yn gymwys heblaw am Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu prosesu data personol ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf â thair elfen iddo:

- rhaid cael budd cyhoeddus dilys dros ddatgelu'r wybodaeth;
- rhaid i'r wybodaeth a ddatgelir fod yn angenrheidiol i fodloni'r budd cyhoeddus; a
- rhaid i'r wybodaeth a ddatgelir beidio â thanseilio buddiannau, hawliau sylfaenol a mesurau rhyddid gwrthrychau'r data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, gan gynnwys: rhwymedigaethau'r Senedd o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl chi i gael mynediad at yr wybodaeth hon; yr unigolion dan sylw a'u hawl hwy i breifatrwydd; a'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth hon.

Ni fyddai gan yr unigolion dan sylw ddisgwyliad rhesymol y câi'r wybodaeth hon ei rhyddhau. Caiff gwybodaeth am eu salwch nhw ei rhannu â'u rheolwr llinell a'r tîm adnoddau dynol mewn modd cyfrinachol. Defnyddir y cofnodion hyn at ddibenion rheoli i fonitro salwch o fewn y sefydliad, ond nid yw rhyddhau gwybodaeth mor fanwl â hyn i'r cyhoedd yn ehangach yn angenrheidiol nac yn deg wrth fodloni eich cais. Mae'r data dienw yn y tabl atodedig, yn ein barn ni, yn fodd cytbwys o fodloni'r budd cyhoeddus gan sicrhau ar yr un pryd y gwarchodir buddiannau, hawliau sylfaenol a mesurau rhyddid y sawl y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw.